

Mae gan Bob Plentyn yr Hawl i Chwarae

# Strategaeth Chwarae

## i Blant a Phobl Ifanc yng Nghaerdydd

re-create

NHS Wales GIG Cymru | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

gwasanaethau chwarae plant
gweithio dros chwarae plant yn Ninas Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD
A Proud Capital
Prifddinas Falch

# STRATEGAETH CHWARAE

**Rhagair**
Gan y Cynghorydd Nigel Howells





*"Chwarae yw hawliad cyntaf plentyn ar y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur ar gyfer bywyd. Ni all unrhyw gymuned dorri'r hawl hwn heb achosi niwed difrifol a pharhaus i feddyliau a chyrff eu dinasyddion. "*

Mae'r dyfyniad hwn gan David Lloyd George yn 1926 yn crynhoi pwysigrwydd sylfaenol hawl pob plentyn i chwarae. Dyma rywbeth a gydnabuwyd yn ddiweddarach yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Dylai'r Strategaeth Chwarae hon helpu ein dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae yng Nghaerdydd a helpu i gyfathrebu'r neges o ba mor hanfodol yw datblygiad iach plant a phobl ifanc.

Fe'i hysgrifennwyd gan grŵp aml-asiantaeth o Gaerdydd ac ymgynghorwyd yn helaeth arni gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal ag ystod o oedolion.

Mae'n nodi gweledigaeth a chenhadaeth glir ar gyfer chwarae ar draws y Ddinas ar saith brif amcan.



Mae'r Strategaeth hon yn ddogfen weithredol ac fe'i hategir gan Gynllun Gweithredu sy'n ddogfen weithiol â thargedau i'w cyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

Un neges allweddol a welir yn y ddogfen hon yw bod Caerdydd yn lle sy'n gwerthfawrogi chwarae ac yn darparu ar gyfer chwarae.

# CYNNWYS


Beth yw Chwarae — Tudalen 3

Manteision Chwarae — Tudalen 3/4

Diffiniad Caerdydd o Chwarae — Tudalen 5

Cefndir Cyffredinol i Gaerdydd — Tudalen 5/6

Prif Amcanion: — Tudalen 7

Amcan Un – Ymgynghori a Gweithio mewn Partneriaeth — Tudalen 8

Amcan Dau – Annog Rhagor o Ddarpariaeth Chwarae — Tudalen 9/10

Amcan Tri – Chwarae mewn Ysgolion — Tudalen 11

Amcan Pedwar – Chwarae yn y Gymuned — Tudalen 12

Amcan Pump – Proffesiwn Gwaith Chwarae — Tudalen 13

Amcan Chwech

– Hyrwyddo Chwarae yn Weithredol mewn Ffordd Gadarnhaol — Tudalen 14

Amcan Saith – Cynyddu Gwerth Gofodau Chwarae — Tudalen 15

Cyd-destun Strategol Cenedlaethol — Tudalen 16

Cyd-destun Strategol Lleol — Tudalen 16

Dogfennau Ategol — Tudalen 17


---

Bydd y strategaeth 5 mlynedd hon yn cynnwys yr holl blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 mlwydd oed, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y rhai rhwng 5 a 15 mlwydd oed ac fe'i hategir gan Gynllun Gweithredu a fydd yn darparu manylion ynglŷn â'i gweithredu. Bydd y Cynllun Gweithredu yn dangos cyfrifoldeb gweithredu ar gyfer pob eitem ac yn cael ei gydlynu gan Swyddog Datblygu Chwarae, Gwasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd. Yn ystod hanner cyntaf ei fodolaeth bydd y Cynllun Gweithredu yn helpu'r Strategaeth Chwarae i ddatblygu'r gwaith o weithredu Blaenoriaeth 10 yng Nghynllun Plant a Phobl Ifanc Caerdydd 2008-2011. Bydd y flaenoriaeth yn 'cynyddu cyfleoedd, ac yn lleihau rhwystrau, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cymryd rhan mewn chwarae priodol'

## Beth yw Chwarae

Mae chwarae yn hawl sylfaenol ac mae wedi'i gynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Golyga hyn fod gan bob plentyn sy'n byw yng Nghaerdydd yr hawl "i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau hamdden" (*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 31*. Diffiniad poblogaidd o chwarae a ddefnyddir yn y proffesiwn yw bod chwarae "yn ymddygiad a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol, ac a ysgogir yn reddfol sy'n mynd â bryd y plentyn" (*Hughes and King 1982*). Y prif oblygiad allweddol yw bod plant yn dewis BETH maen nhw'n ei wneud, SUT maen nhw'n ei wneud a PHAM maen nhw'n ei wneud e.

Mae gan chwarae rôl bwysig mewn nifer o wahanol broffesiynau. Mae ganddo le â gwaith nifer o wahanol wasanaethau, sefydliadau a grwpiau. Nid cyfrifoldeb un sefydliad neu grŵp yw darparu a datblygu cyfleoedd chwarae yng Nghaerdydd, ond cyfrifoldeb ystod eang o wahanol sefydliadau, grwpiau, unigolion a chymunedau sydd ag amrywiaeth o resymau dros gymryd rhan.



# Manteision Chwarae

Mae chwarae yn hanfodol wrth ddatblygu llythrennedd emosiynol plant a phobl ifanc. Mae'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn amcangyfrif ar unrhyw un adeg bod 20 % o blant yn profi problemau seicolegol, gan gynnwys pwysau a phryder. Mae angen cyfleoedd i gymryd risgiau fesul dipyn mewn chwarae heb oruchwyliaeth ar blant a phobl ifanc. Maen hyn yn datblygu hunan hyder a gwydnwch sef y ddau ffactor ataliol allweddol ar gyfer iechyd meddwl.

Mae chwarae yn hyrwyddo ffordd o fyw iach. Mae'n gwella ffitrwydd ac yn annog plant a phobl ifanc i ddatblygu ffordd o fyw actif yn ogystal â hyrwyddo iechyd meddwl a lles cymdeithasol. Mae chwarae yn yr awyr agored yn un o'r argymhellion ar gyfer hyrwyddo 60 munud o weithgarwch bob dydd.

Mae angen darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ailgysylltu â natur, drwy allu archwilio eu hamgylchedd o oed cynnar, gan alluogi plant i ddod yn oedolion chwilfrydig, yn feddylwyr a dysgwyr annibynnol sydd nid yn unig eisiau gwybod mwy am y byd ond hefyd yn cydnabod eu dibynadwyedd arno. Datgelwyd gan ymchwil diweddar ar ran Coleg Prifysgol Llundain ar gyfer yr Adran Dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon, sef "Cynyddu Maint Gweithgaredd Corfforol Plant drwy Gerdded a Chwarae", fod chwarae yn cael ei ystyried i fod yr amser lle cafwyd y mwyaf o weithgaredd. Daethpwyd i'r casgliad hwn yn ddamweiniol wrth edrych ar ddulliau trafnidiaeth yn ôl a blaen o'r ysgol. Dangosodd hefyd fod plant sy'n cerdded i'r ysgol yn fwy effro'n ymenyddol yn ystod cyfnod ysgol.

Mae disgwyliadau ymddygiadol a dealltwriaeth o reolau yn hanfodol mewn cymdeithas drefnus. Mae plant yn dysgu'r rheolau cymdeithasol hyn wrth chwarae, gan ddod yn ymwybodol o anghenion eraill, a'u parchu, dysgu i gyfaddawdu a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Trwy chwarae maent yn datblygu lefel cymhwysedd cymdeithasol, sgiliau rhyngbersonol a mewnbersonol. Gallai hyn arwain at lai o broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y blynyddoedd i ddod.

*"Yr hawl i chwarae yw hawliad cyntaf plentyn ar y gymuned. Chwarae yw hyfforddiant natur ar gyfer bywyd. Ni all unrhyw gymuned dorri'r hawl hwn heb achosi niwed i feddyliau a chyrff eu dinasyddion." (David Lloyd George 1928)*

| | Caerdydd | | Pob AU Arall yn Neddwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| 0 to 4 | 17,700 | 5.5 | 61,800 | 5.6 |
| 5 to 14 | 38,400 | 12.0 | 143,400 | 13.1 |
| 15 to 24 | 58,500 | 18.3 | 138,800 | 12.7 |
| 0 to 24 | 114,600 | 35.8 | 344,000 | 31.4 |

## Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai:

"Chwarae yw'r broses ddysgu elfennol y datblygodd y ddynoliaeth drwyddi. Mae plant yn arddangos rheidrwydd ymddygiadol a dymuniad greddfol i chwarae. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at oroesiad esblygol a datblygiadol ein rhywogaeth. Mae plant yn defnyddio chwarae yn yr amgylchedd naturiol i ddysgu am y byd y maent yn byw ynddo gydag eraill. Dyma'r union broses o ddysgu a thyfiant, ac felly mae popeth a ddysgir drwyddi o fudd i'r plentyn."

## Diffiniad Caerdydd o Chwarae

Ystyr chwarae yw bod plant yn dewis yr hyn maen nhw eisiau ei wneud, sut maen nhw eisiau ei wneud a phryd i stopio a rhoi cynnig ar rywbeth arall. Nid oes gan chwarae rhydd amcanion allanol wedi eu gosod gan oedolion na chwricwlwm chwaith. Er bod oedolion fel arfer yn darparu'r gwagle a'r adnoddau ar gyfer chwarae rhydd ac efallai'n cymryd rhan eu hunain, y plentyn sy'n arwain ac mae'r oedolion yn ymateb i awgrymiadau'r plentyn.

## Cefndir Cyffredinol i Gaerdydd

Caerdydd yw prifddinas Cymru a hefyd awdurdod unedol mwyaf y wlad ac mae'n parhau i dyfu'n gynt nag unrhyw ddinas arall yn Ewrop. Y boblogaeth yn ôl Cyfrifiad 2001 oedd 305,353 ac mae wedi tyfu ers hynny i amcangyfrif o 319,700 (amcangyfrifon canol blwyddyn 2005 Swyddfa Gofrestru Gyffredinol y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae'r ffigwr poblogaeth yn cynrychioli 10.81 % o amcangyfrif o gyfanswm poblogaeth Cymru yn yr un flwyddyn.

Tra bo Caerdydd yn cael ei ystyried yn lle cymharol ffyniannus yn ôl canlyniadau mewnfuddsoddi yn y sector preifat a mentrau adfywio dinesig (sy'n dod â llawer o amwynderau mawreddog i'r ddinas), ystyrir bod 50,000 o'r trigolion yn byw ymysg y 10 % o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae dros 35 % o boblogaeth Caerdydd o fewn yr amrediad oed a drafodir yn y strategaeth hon. Mae dosraniad poblogaeth yn ôl grŵp oed yn y braced oed 15 i 24 ychydig yn uwch yng Nghaerdydd o'i chymharu â gweddill De-Ddwyrain Cymru, oherwydd maint y boblogaeth myfyrwyr.

Tra bo Cyfrifiad 2001 yn dangos bod poblogaeth lleiafrifoedd ethnig Caerdydd yn 8.4 % o'i chymharu â 6.1 % yng Nghyfrifiad 1991, mae ystadegau mwy diweddar yn amcangyfrif y ffigwr yn 10.7 %. Y gymuned Asiaidd sy'n cynrychioli'r grŵp lleiafrifoedd ethnig mwyaf yng Nghaerdydd (3.95 %); o fewn hyn mae'r gymuned Bacistanaidd yn cynrychioli 1.4 % a'r gymuned Indiaidd yn cynrychioli 1.25 %. Mae'r gymuned gymysg yn cynrychioli 2 % o'r boblogaeth, cymunedau Du 1.28 % a Tsieineaidd neu eraill 1.2 % o gyfanswm poblogaeth Caerdydd (Cyfrifiad 2001).

Yng Nghaerdydd, 10.9 % o'r boblogaeth (o bob oed) sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn gosod Caerdydd yr 16eg allan o 22 awdurdod o ran gallu i siarad Cymraeg.





Lluniwyd y Strategaeth hon o fewn cyd-destun gwaith Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Caerdydd (PPPIC).  Mae gan PPPIC gyfrifoldeb dros gynllunio a gweithredu un o'r pedair dogfen gynllunio allweddol a fydd yn cefnogi'r Strategaeth Gymunedol leol yng Nghaerdydd. Bydd y cynllun unigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei weithredu o 2008 ymlaen ac yn cymryd lle'r holl gynlluniau strategol lleol eraill mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Trefnir y PPPIC yng Nghaerdydd yn ôl canllaw ar gydweithredu lleol dan Ddeddf Plant 2004 sydd wedi bod mewn grym statudol ers mis Medi 2006.  Enw'r canllaw hwn yw 'Plant a Phobl Ifanc:  Gweithredu'r Hawliau, Partneriaethau Cryfach a Chanlyniadau Gwell'.  Mae Cyngor Caerdydd, ei bartneriaid allweddol a'r holl sefydliadau lleol perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â diddordebau plant a phobl ifanc yn cymryd rhan trwy'r bartneriaeth mewn trefniadau lleol cydweithredol ar ran plant a phobl ifanc.

Mae ystod o grwpiau gorchwyl aml-asiantaeth o fewn y PPPIC yn cynorthwyo i gynllunio a gweithredu dros feysydd gwaith arbennig ac mae'r grwpiau hyn yn atebol i Fwrdd Fframwaith PPPIC.  Cefnogir gwaith y bartneriaeth â'i hystod o weithgareddau drwy fuddsoddi mewn dulliau cyfranogi a gwerthuso.  Mae'r bartneriaeth yn cydgomisiynu gwasanaethau trwy gyfrwng grŵp a sefydlwyd yn benodol o fewn y strwythur bartneriaeth ar gyfer y diben hwn.

Bydd gweithredu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd PPPIC a chan bum Grŵp Craidd a fydd yn atebol i'r Bwrdd hwnnw.

Bydd y Grŵp Craidd Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant yn cymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio gweithredu'r strategaeth chwarae. Bydd grŵp (neu grwpiau) gwaith yn cael eu sefydlu ar gyfer gweithredu. Bydd y grŵp yn cael ei gefnogi gan y Bartneriaeth a bydd yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Craidd.  Bydd monitro a gwerthuso ac arolwg blynyddol o'r cynnydd dilynol yn cael eu cynnwys gydag anghenion y Cynllun PPPIC.

Mae'r Bartneriaeth wedi rhoi ysgogiad benodol i'r angen i gynyddu ei nodau trwy ymwneud ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc a chymunedau amrywiol Caerdydd y maent yn eu cynrychioli.  Mae hyn wedi arwain at y gwaith ymgynghori a chyfrannu manwl a nodir yn y cynllun hwn.  Mae'r gwaith hwn hefyd yn dangos ymrwymiad y Bartneriaeth i ymdrin â materion amrywiaeth a materion diwylliant, iaith, cydraddoldeb hiliol ac anabledd yn benodol. Rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau bod ymglymiad ac ymgynghori yn cyrraedd holl sectorau'r gymuned ac yn holl gynhwysol.

Yn gynnar yn 2007, ymgynghorwyd â Phlant a Phobl Ifanc ynglŷn â pharatoi'r strategaeth.  Gyda'i gilydd, cynhaliwyd deuddeg ymgynghoriad a oedd yn cynnwys dros bum cant o blant a phobl ifanc mewn dros 15 sefydliad ar draws y Ddinas. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn wedi'u crynhoi a'u casglu gyda'i gilydd o dan 7 amcan allweddol.  Bydd pob amcan yn ei dro yn creu cyfres o gamau gweithredu i sicrhau ei gyflawni dros oes y strategaeth.  Y 'Cynllun Gweithredu' hwn fydd y prif yrrwr o ran datblygu'r strategaeth hon.



### Y Prif Amcanion

**Dyma'r saith prif amcan y mae'r strategaeth yn ymdrin â hwy:**

**Amcan Un**

- Ymgynghori a Gweithio mewn Partneriaeth

**Amcan Dau**

- Annog Rhagor o Ddarpariaeth Chwarae

**Amcan Tri**

- Chwarae mewn Ysgolion

**Amcan Pedwar**

- Chwarae yn y Gymuned

**Amcan Pump**


– Proffesiwn Gwaith Chwarae

**Amcan Chwech**

- Hyrwyddo Chwarae yn Weithredol mewn Ffordd Gadarnhaol

**Amcan Saith**

- Cynyddu gwerth mannau chwarae







## Amcan Un – Ymgynghori a Gweithio mewn Partneriaeth

Nod: Ymgynghori, arsylwi, cynnwys a gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc ac asiantaethau eraill ar gyfer cynllunio a darparu'r strategaeth a gwasanaethau chwarae.

### Beth sydd angen ei ystyried?

Hawl i'r holl staff, sefydliadau, rhieni a gofalwyr, ac yn bwysicaf oll plant a phobl ifanc, drwy sicrhau eu hymglymiad o ran datblygu a darparu gwasanaethau a darpariaeth.

Priodoldeb, i sicrhau y defnyddir gwahanol dechnegau, dulliau, prosesau ymglymiad yn ôl oedran, gallu, rhyw a phwnc. Ymglymiad, gan sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc y cyfle i gymryd rhan os ydynt yn dewis hynny.

Y rheiny sy'n cael eu hallgau h.y. o'r ysgol, neu ddarpariaeth brif ffrwd

Partneriaethau – Aml-asiantaeth, Rhyng-wasanaeth, gweithio ar draws sectorau

Ymgynghori rheolaidd a chyson, a gynhelir gan hwyluswyr hyderus a chymwys

### Sut y cyflawnir hyn?

- Drwy ymgynghori wyneb yn wyneb â phlant ifancach, e.e. cydgysylltu â grwpiau chwarae, grwpiau rhieni a phlant bach, ysgolion, cynlluniau gwaith, gan sicrhau yr ymgynghorir â chroestoriad o'r gymuned.
- Drwy ddefnyddio holiaduron, cynadleddau, gweithgorau, ac unrhyw ddulliau addas eraill fel y cytunir â'r partneriaid.
- Ymgysylltu â Chynghorau Ysgol sefydledig a fforymau plant a phobl ifanc eraill h.y. y wefan Sprout, "Hear By Right".
- Addasu dulliau cyfathrebu, gan gynnwys gwybodaeth a ddarperir mewn ffurfiau diwygiedig i gwrdd â gofynion penodol.
- Ymgysylltu ag aelodau'r 'Fforwm Chwarae' ar gyfer Caerdydd, Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd a Rhwydwaith Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Caerdydd. Rhwydwaith y Rhieni a'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd.
- Drwy sicrhau bod anghenion lleol, ieithyddol a diwylliannol yn cael eu hystyried.
- Drwy arsylwi plant a phobl ifanc wrth chwarae, gan gysylltu hynny â damcaniaethau, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu parhau i chwarae yn rhydd heb ymyriadau oedolion.
- Cynhyrchu cronfa ddata gwybodaeth ymgynghori sy'n nodi gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ac unrhyw fylchau ar gyfer y dyfodol. Ymgymerir â'r gwaith hwn ar y cyd â'r Swyddog Cyfranogi yn y PPPIC.
- Ffurfio Grwpiau Ffocws.
- Cyfathrebu effeithiol yn cynnwys ystod eang o gyfryngau.
- Rhoi adborth rheolaidd.
- Cysylltu â sefydliadau Cenedlaethol a lleol sydd wedi sefydlu cronfeydd data sefydledig h.y. Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a'r Ddraig Ffynci.

### Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

- Gweithgor Partneriaeth Strategaeth Chwarae



## Amcan Dau - Annog Rhagor o Ddarpariaeth Chwarae






Nod: Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gyfleoedd chwarae lleol, hygyrch o ansawdd uchel gydag adnoddau i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd.

### Beth sydd angen ei ystyried?

- Yr holl blant a phobl ifanc
- Cydraddoldeb mynediad
- Cyllid/adnoddau
- Rhyddid dewis
- Trafnidiaeth
- Cydraddoldeb cyfleoedd
- Cyfathrebu
- Darpariaeth ddwyieithog
- Canolfannau Plant Integredig; mae angen i'r rhain gynnwys cyfleoedd chwarae mynediad agored o fewn eu rhwydweithiau.
- Menter Dechrau'n Deg sy'n ystyried chwarae i blant rhwng 0 a 3 mewn ardaloedd difreintiedig.
- Gweithredu, cynnal ac adnewyddu'r holl ddarpariaeth a gwasanaethau e.e. Offer Chwarae Sefydlog, Gofalwyr Chwarae, projectau yn y Gymuned a Chanolfannau Chwarae, Ysgolion Cymunedol
- Ymglymiad cymunedau wrth ddatblygu a chynnal darpariaeth
- Darpariaeth Gofal Plant
- Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid
- Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf
- Strategaeth Cefnogi'r Teulu



## Sut y cyflawnir hyn?

- Archwilio a dadansoddi anghenion cyflawn fel bod Caerdydd yn cydnabod bylchau o ran darpariaeth ac yn cyflenwi gwasanaeth.
- Adolygu'r holl ddarpariaeth gyfredol i sefydlu'r posibilrwydd o gydweithio a rhannu adnoddau ac ariannu er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd chwarae.
- Gweithio mewn partneriaeth - o 2008 ymlaen bydd angen i bob awdurdod lleol gael cynllun plant a phobl ifanc sy'n cynnwys yr holl wasanaethau i'r rheiny rhwng 0 a 25 mlwydd oed. Mae trefniadau partneriaeth gryfach yn angenrheidiol ar gyfer datblygu a darparu'r cynlluniau hyn trwy gydweithio effeithiol. Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn ofyniad dan Ddeddf Plant 2004 (Partneriaethau Cryfach ar gyfer Canlyniadau Gwell - Plant a Phobl Ifanc - Gweithredu'r Hawliau)
- Dod o hyd i ffynonellau cyllid neu ariannu cyfun
- Gwneud y mwyaf o'r cyfleusterau a'r cyfleoedd i'r holl blant a phobl ifanc er mwyn bodloni eu hanghenion.

## Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

Swyddog Arweiniol – Swyddog Datblygu Chwarae mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol, a sectorau gwirfoddol, statudol a chyhoeddus





**Beth sy'n atal chwarae?**

"Rhiant/gofalwr gor-amddiffynnol"

*SPICE Llanisien*



## Amcan Tri
## – Chwarae mewn Ysgolion

Nod: Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddarparu a datblygu amgylcheddau chwarae gwerthfawr sy'n bodloni anghenion chwarae plant a phobl ifanc yn y ffordd orau o fewn amgylcheddau ysgol, yn ystod oriau ysgol a thu allan i oriau ysgol.

## Beth sydd angen ei ystyried?

- Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng 3 a 7 mlwydd oed yn cydnabod y dystiolaeth ryngwladol fod plant yn dysgu orau trwy chwarae a chymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau. Mae tir ysgol, os ydyw wedi'i ddylunio, ei dirlunio, a'i reoli'n dda yn cynnig ystod werthfawr o ysgogiad, syniadau, adnoddau a gofod chwarae i blant a phobl ifanc. Mae ymchwil diweddar (Prifysgol Llundain) yn cefnogi gwerth amseroedd chwarae o fewn y diwrnod ysgol ac felly'n cefnogi eu diogelu.
- Mae'r rhaglen Hawliau Estynedig ar gyfer y grŵp 11 – 25 yn seiliedig ar ddeg hawl.
- Un o'r rhain yw "cynnig cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch.
- Staff addysgu a staff eraill – mae'n bwysig i staff gael gwybodaeth am Chwarae.
- Does dim rhaglen statudol gyfredol i Chwarae ar gyfer plant 7 - 11 oed yn y wlad hon; felly bydd y strategaeth hon yn canfod ffordd ymlaen i sicrhau fod gan bob plentyn hawl cydnabyddedig i chwarae.

## Sut y cyflawnir hyn?

- Cydnabod Swyddogion Arweiniol sy'n gweithio ar y mentrau uchod
- Hyfforddiant Chwarae i'r holl staff ysgol ac aelodau staff allweddol eraill
- Dod o hyd i ffynonellau cyllid
- Gweithio mewn partneriaeth

## Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

Swyddog Arweiniol – Swyddog Datblygu Chwarae a Swyddog Arweiniol o Ysgolion a Dysgu Gydol Oes



**Beth yw'r peth pwysicaf i chi wrth chwarae?**

"Fy Ffrindiau a Phethau i'w Gwneud sy'n Llawn Hwyl"

*Ysgol Iau Herbert Thompson*





## Amcan Pedwar – Chwarae yn y Gymuned

Nod: Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion lleol yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau newydd.

### Beth sydd angen ei ystyried?

- Parthau Cartrefi
- Cynllun Datblygu Lleol
- Meysydd Chwarae Cymru – Cynllunio a Dylunio ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored
- Nodiadau Cyngor Technegol
- Canllaw Cynllunio Atodol Caerdydd/ safonau sy'n ymddangos ar gyfer mannau gwyrdd lleol
- Polisi Cynllunio
- Strategaeth Parciau a Mannau Gwyrdd
- Polisi Trafnidiaeth
- Llwybrau Diogel i'r Ysgol
- Adeileddau Hunan Adeiladu
- Dringo'n Uwch
- Gweithgarwch Corfforol
- Polisi Tai
- Darpariaeth Gyfredol
- Cymunedau yn Gyntaf
- Partneriaeth Diogelwch Gymunedol
- Cynghorau Cymuned

### Sut y cyflawnir hyn?

- Cydnabod Swyddogion Arweiniol sy'n gweithio ar y mentrau uchod
- Hyfforddiant i staff ysgol allweddol ac aelodau staff allweddol eraill
- Dod o hyd i ffynonellau cyllid
- Gweithio mewn partneriaeth
- Ymgynghori â thrigolion

Hunan Adeiladu a Dylunio (yn ôl Cynllun Gweithredu Chwarae y Cynulliad)

### Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

- Swyddog Datblygu Chwarae a Swyddog Partneriaeth Parciau



"Chwarae yw cael hwyl, gan eich cadw'n brysur."

*(Canolfan Chwarae Grangetown)*

## Amcan Pump
## – Proffesiwn Gwaith Chwarae

Nod: Parhau i godi ansawdd arfer gwaith chwarae, drwy hyrwyddo hyfforddiant a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

### Beth sydd angen ei ystyried?

- Gofynion cyfreithiol
- Cynlluniau Sicrwydd Ansawdd
- Pecynnau Hyfforddiant Cenedlaethol sy'n ymddangos

### Sut y cyflawnir hyn?

- Drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau hyfforddi allanol
- Diweddaru'r hyfforddiant a ddarparwn yn rheolaidd
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Cynyddu gwybodaeth am y proffesiwn gwaith chwarae
- Cynllun Gweithredu Gofal Plant
- Ymchwil a gynhaliwyd eisoes
- Datblygu Gweithlu

### Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

Swyddog Arwain – Swyddog Datblygu Chwarae gyda grŵp partneriaeth o bob sector



### Beth sy'n gwneud gweithiwr chwarae da?

"Rhywun sy'n gallu eich deall chi, maen nhw'n deall eich problemau."

*Ysgol Thomas Herbert*

"Rhywun nad oes ofn ganddo wneud ffŵl o'i hun"

*Canolfan Chwarae Grangetown*







## Amcan Chwech - Hyrwyddo Chwarae yn Weithredol mewn Ffordd Gadarnhaol

Nod: Codi proffil chwarae a hyrwyddo pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad plant a phobl ifanc.

### Beth sydd angen ei ystyried?

- Hyrwyddo chwarae plant a phobl ifanc yn gadarnhaol
- Ystod ac amrywiaeth y ddarpariaeth a'r gwasanaethau
- Hyrwyddo chwarae i holl aelodau'r gymdeithas yn weithredol
- Gwasanaeth Gwybodaeth Plant
- Gwerth a lles chwarae i bawb
- Safonau gofynnol ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau chwarae
- Cynhyrchu Llawlyfr Rhieni
- Hyrwyddo Diwrnod Chwarae Cenedlaethol
- Iechyd a Diogelwch
- Rôl Llywodraethwyr Ysgol

### Sut y cyflawnir hyn?

- Cynhyrchu deunydd marchnata
- Gweithio mewn Partneriaeth â'r holl asiantaethau
- Gweithio gyda Rhieni a Theuluoedd

### Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

Gweithgor partneriaeth strategaeth chwarae





**Lle byddwch chi'n chwarae?**

"Unrhyw le gyda ffrindiau"
*(Ysgol Gynradd Llanisien)*

"Ar Ffordd Ddiogel"
*(Ysgol Herbert Thompson, Trelái)*

## Amcan Saith – Cynyddu gwerth mannau chwarae

Nod: Cynyddu gwerth mannau chwarae yn ardal Caerdydd o ran dylunio, lleoliad a chynhaliaeth fel eu bod yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc.

### Beth sydd angen ei ystyried?

- Dylunio
- Diogelwch – gan gynnwys Asesiad Risg, Safonau Prydeinig ac Ewropeaidd
- Golau
- Deddfwriaeth
- Archwiliad a Chynnal a Chadw
- Offer
- Lleoliad
- Dyblygiad
- Mynediad
- Rhyw benodol/Gwahaniaethau diwylliannol/Anghenion Arbennig/ Plant a phobl ifanc yn yr Ysbyty/ Carchar
- Ysgolion Forrest
- Mannau Gwyrdd a Brown
- Cynllun Adnewyddu Asedau ar gyfer caeau chwarae offer sefydlog
- Adolygu / diweddaru'r Strategaeth Maes Chwarae Plant

### Sut y cyflawnir hyn?

- Gweithio mewn partneriaeth â'r holl asiantaethau, gwasanaethau, cymunedau a phlant a phobl ifanc perthnasol.
- Cyfundrefn cynnal a chadw, ailddatblygu a chyllid rheolaidd
- Datblygu meysydd chwarae ysbytai

### Pwy fydd yn cydlynu'r ddarpariaeth?

Gweithgor partneriaeth Strategaeth Chwarae



### Beth yw'r mannau chwarae pwysicaf?

"Fy Ngardd Arbennig"

*Rascals Rhiwbeina*

"Y Ganolfan Chwarae, Pethau Chwarae"

*Canolfan Chwarae Trelái*



## Cyd-destun Strategol - Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod ei weledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn tair dogfen allweddol:

Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth:

Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru

Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.

Mae'r rhain yn seiliedig ar nifer o themâu craidd:

- sylfaen egwyddor yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn;
- hawliau i wasanaethau yn seiliedig ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- gwrando a gweithredu ar safbwyntiau plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r rheiny sydd â'r angen mwyaf; ac
- ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth rhwng gwahanol sefydliadau lleol fel yr unig ffordd y gellir cyflawni'r dyheadau hyn.

## Cyd-destun Strategol - Lleol

Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2006-2009

Strategaeth Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd Caerdydd 2007

Cwrdd â'r Her. Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Caerdydd 2005-2008. Cynghrair Iechyd Caerdydd.

Strategaeth Parciau a Mannau Gwyrdd, Cyngor Caerdydd (2006)

Project Parthau Cartrefi

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd - Cyngor Caerdydd 2006

Cynllun Trafnidiaeth Lleol – 2003



## Cyfranwyr

Jackie Dorrian - Gwasanaethau Uniongyrchol

Barbara Beedham - Gwasanaethau Uniongyrchol

Keeley Jones - Gwasanaethau Uniongyrchol

Becky Cole - Gwasanaethau Uniongyrchol

Stephen O'Reilly - Gwasanaethau Uniongyrchol

Rosie James - Gwasanaethau Uniongyrchol

Adrian Jones - Gwasanaethau Uniongyrchol

Richard Hibbs - Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

David Evans - Priffyrdd a Rheoli Gwastraff

Alison Jones - Strategaeth a Menter

David Howell - TGCh

Helen Witham - Cyfathrebu a'r Cyfryngau

Ros Wood - Cynllunio Cymdogaethau

Sarah Southern/ Marianne Manello/ Michelle Jones - Chwarae Cymru

Lizzie Kenyon - Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd

Chris Kelly - ReCraete tan fis Mawrth 2008

Chris Southern - ReCreate o fis Ebrill 2008

Ulrika Ljungstrand - Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro

Jackie James - Cymuned De Glan-yr-afon Canolfan Datblygu





## Dogfennau a mentrau strategol ategol

Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae, Llywodraeth Cynlluniad Cymru (2006)

Dringo'n Uwch - Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol, Llywodraeth Cynlluniad Cymru (2005)

Lles yng Nghymru
- Llywodraeth Cynlluniad Cymru (2002)

Y Wlad sy'n Dysgu
- Llywodraeth Cynlluniad Cymru 2001

Her Iechyd Cymru

Cymru Greadigol - Strategaeth Ddiwylliant i Gymru, Llywodraeth Cynlluniad Cymru (2002)

Ymestyn Hawliau

Cymru:  Gwlad Well

Menter Ysgolion Cymunedol
- Llywodraeth Cynlluniad Cymru

Y Cyfnod Sylfaen - Llywodraeth Cynlluniad Cymru

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth (NSF)

Llwybrau Diogel oddi fewn i'r Gymuned
- Uned Diogelwch ar y Ffyrdd

Ysgolion Iach
- Menter Llywodraeth Cynlluniad Cymru



# LLE I CHWARAE



**Sgriblan a Dwdlan:**

